



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 253 (Cy. 33)

2023 No. 253 (W. 33)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

COUNCIL TAX, WALES

Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Eithriadau rhag Symiau Uwch)
(Cymru) (Diwygio) 2023

The Council Tax (Exceptions to
Higher Amounts) (Wales)
(Amendment) Regulations 2023

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 9 (Dosbarth 6) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 er mwyn ychwanegu eiddo sy'n ddarostyngedig i amod cynllunio sy'n pennu na chaniateir defnyddio annedd ond ar gyfer llely gwyliau neu sy'n atal meddiannaeth o'r eiddo hwnnw fel unig neu brif breswylfa person fel dosbarth ar annedd na chaiff awdurdod bilio wneud penderfyniad i gymhwyso cyfradd uwch o dreth gyngor iddo.

These Regulations amend regulation 9 (Class 6) of the Council Tax (Exceptions to Higher Amounts) (Wales) Regulations 2015 to add properties subject to a planning condition that specifies a dwelling may only be used for holiday lets or restricting occupancy of that property as a person's sole or main residence as a class of dwelling to which a billing authority may not make a determination to apply a higher rate of council tax.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of regulatory impact assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Local Government Strategic Finance Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2023 Rhif 253 (Cy. 33)

2023 No. 253 (W. 33)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

COUNCIL TAX, WALES

**Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Eithriadau rhag Symiau Uwch)
(Cymru) (Diwygio) 2023**

**The Council Tax (Exceptions to
Higher Amounts) (Wales)
(Amendment) Regulations 2023**

Gwnaed 2 Mawrth 2023

Made 2 March 2023

*Gosodwyd
Senedd Cymru* gerbron
6 Mawrth 2023

Laid before Senedd Cymru 6 March 2023

Yn dod i rym 1 Ebrill 2023

Coming into force 1 April 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 12B(5) a (6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 12B(5) and (6) of the Local Government Finance Act 1992(1).

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023.

1.—(1) The title of these Regulations is the Council Tax (Exceptions to Higher Amounts) (Wales) (Amendment) Regulations 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2023.

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015

Amendments to the Council Tax (Exceptions to Higher Amounts) (Wales) Regulations 2015

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

2.—(1) The Council Tax (Exceptions to Higher Amounts) (Wales) Regulations 2015(2) are amended as follows.

(2) Yn rheoliad 9 (Dosbarth 6), yn lle paragraff (1) rhodder—

(2) In regulation 9 (Class 6) for paragraph (1) substitute—

“(1) Mae'r dosbarth ar anheddau sydd wedi ei ragnodi at ddiben y rheoliad hwn (“Dosbarth 6”) wedi ei ffurfio o bob annedd y mae ei meddiannu wedi ei gyfyngu gan amod cynllunio sydd—

“(1) The class of dwellings prescribed for the purpose of this regulation (“Class 6”) comprises every dwelling the occupation of which is restricted by a planning condition—

(1) 1992 p. 14. Mewnosodwyd adran 12B o'r Ddeddf gan adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).

(1) 1992 c. 14. Section 12B of the Act was inserted by section 139 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).

(2) O.S. 2015/2068, a ddiwygiwyd gan baragraff 102(1) o Atodlen 3 i Reoliadau Partneriaeth Sifil (Cyplau o Rywiau Gwahanol) 2019 (O.S. 2019/1458).

(2) S.I. 2015/2068, amended by the Civil Partnership (Opposite-sex Couples) Regulations (S.I. 2019/1458) Schedule 3, paragraph 102(1).

- (a) yn atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o un flwyddyn;
- (b) yn pennu na chaniateir defnyddio'r annedd ond ar gyfer llety gwyliau; neu
- (c) yn atal meddiannaeth fel unig neu brif breswylfa person.”.

- (a) preventing occupancy for a continuous period of at least 28 days in any one year period;
- (b) specifying that the dwelling may be used for holiday let only; or
- (c) preventing occupancy as a person’s sole or main residence.”.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
2 Mawrth 2023

Minister for Finance and Local Government, one of
the Welsh Ministers
2 March 2023

©Hawlfraint y Goron 2023

© Crown copyright 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/253>

ISBN 978-0-348-39419-1



9 780348 394191